# Agenda - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 4, Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Llun, 23 Mehefin 2025

Amser: 13.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**P Gareth Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDCC@senedd.cymru

# Hybrid

## Cyfarfod cyhoeddus

(13.00 - 14.25)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(13.00)

## 2 Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru): Sesiwn dystiolaeth gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai

(13.00 - 14.00) (Tudalennau 1 - 54)

Y Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru), fel y'i cyflwynwyd

Memorandwm Esboniadol

Jayne Bryant AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai

Sarah Rhodes, Dirprwy Gyfarwyddwr Polisi Tai, Llywodraeth Cymru

Hannah Fisher, Pennaeth Deddfwriaeth atal Digartrefedd, Llywodraeth Cymru

Julie Stokes, Cyfreithiwr, Llywodraeth Cymru

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-20-25 - Papur 1 – Papur Briffio

LJC(6)-20-25 - Papur 2 – Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 19 Mai 2025

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## Egwyl

(14.00 - 14.05)

## 3 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

(14.05 - 14.10) (Tudalennau 55 - 56)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-20-25 - Papur 3 - Adroddiad drafft

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Negyddol**

3.1 **SL(6)618 - Rheoliadau Dileu Atebolrwydd dros Fenthyciadau i Fyfyrwyr at Gostau Byw (Cymru) 2025**

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol**

3.2 **SL(6)619 - Rheoliadau Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (Eithriadau ac Amrywio Terfynau Gwariant Ymgyrch) (Cymru) 2025**

## 4 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

## 5 Offerynnau sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 - trafodwyd eisoes

(14.10 - 14.15)

5.1 **SL(6)615 - Gorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2025**

(Tudalennau 57 - 58)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-20-25 - Papur 4 - Llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai, 18 Mehefin 2025

## 6 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

(14.15 - 14.20)

### 6.1 Gohebiaeth gan Lywodraeth Cymru: Cyfarfodydd grwpiau rhyngweinidogol

(Tudalen 59)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-20-25 - Papur 5 - Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Y Grŵp Rhyngweinidogol ar Gyfiawnder, 17 Mehefin 2025

## 7 Papurau i'w nodi

(14.20 - 14.25)

### 7.1 Gohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip: Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar Fil Diogelwch y Ffin, Lloches a Mewnfudo

(Tudalen 60)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-20-25 - Papur 6 - Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip, 17 Mehefin 2025

### 7.2 Gohebiaeth oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio: Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 3 a Memorandwm Rhif 4) ar y Bil Data (Defnyddio a Mynediad)

(Tudalennau 61 - 63)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-20-25 - Papur 7 - Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, 17 Mehefin 2025

### 7.3 Gohebiaeth a Datganiad Ysgrifenedig gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni: Bil Drafft Cynllunio (Cymru)

(Tudalennau 64 - 65)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-20-25 – Papur 8 – Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni, 18 Mehefin 2025

LJC(6)-20-25 - Papur 9 – Datganiad Ysgrifenedig gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni, 18 Mehefin 2025

## 8 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod.

(14.25)

## Cyfarfod preifat

(14.25 - 15.15)

## 9 Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru): Trafod y dystiolaeth

(14.25 - 14.35)

## 10 Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol ar Orchymyn Diwygio Deddfwriaethol (Datgelu Data Gofal Cymdeithasol Oedolion) 2025

(14.35 - 14.40) (Tudalennau 66 – 69)

Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol

Offeryn Statudol [Saesneg yn unig]

Memorandwm Esboniadol [Saesneg yn unig]

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-20-25 - Papur 10 – Nodyn cyngor cyfreithiol [Saesneg yn unig]

LJC(6)-20-25 - Papur 11 – Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai, 30 Mai 2025

## 11 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Dioddefwyr a Llysoedd

(14.40 - 14.50) (Tudalennau 70 – 73)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-20-25 - Papur 12 – Nodyn cyngor cyfreithiol [Saesneg yn unig]

## 12 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) ar y Bil Iechyd Meddwl: Adroddiad drafft

(14.50 - 15.00) (Tudalennau 74 - 92)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-20-25 - Papur 13 - Adroddiad drafft [Saesneg yn unig]

LJC(6)-20-25 - Papur 14 - Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Iechyd Meddwl, 13 Mehefin 2025

## 13 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) ar y Bil Gwasanaethau Bysiau (Rhif 2)

(15.00 - 15.15) (Tudalennau 93 - 104)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-20-25 - Papur 15 - Nodyn cyngor cyfreithiol [Saesneg yn unig]

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Jayne Bryant AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai**
**Cabinet Secretary for Housing and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref: MA-JB-0889-25

John Griffiths AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

19 May 2025

Annwyl John,

Yn Dilyn cyflwyno Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru) i'r Senedd ar 19 Mai 2025, amgaeaf gopi o'r Datganiad o Fwriad Polisi. Diben y ddogfen hon yw cynorthwyo aelodau'r Pwyllgor I graffu ar y Bil.

Rwy'n edrych ymlaen at gyflwyno tystiolaeth I'r Pwyllgor ar 4 Mehefin.

Byddaf yn anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad..

Yn gywir,

**Jayne Bryant AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai
Cabinet Secretary for Housing and Local Government

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jayne.Bryant@llyw.cymru
Correspondence.Jayne.Bryant@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru)**

**Datganiad o Fwriad y Polisi ar gyfer Is-ddeddfwriaeth**

**Cyflwyniad**

Mae'r datganiad hwn yn nodi bwriad y polisi ar gyfer is-ddeddfwriaeth y byddai gan Weinidogion Cymru bwerau i'w gwneud neu y byddai'n ofynnol i Weinidogion Cymru ei gwneud o dan ddarpariaethau'r Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru) ('y Bil').

Mae'r datganiad wedi'i baratoi er mwyn cynorthwyo pwyllgorau perthnasol yn ystod y broses o graffu ar y Bil. Dylid ei ddarllen ar y cyd â'r Bil, y Memorandwm Esboniadol a'r Nodiadau Esboniadol. Efallai y bydd angen cyfeirio at Ddeddf Tai (Cymru) 2014 ("Deddf 2014"), Deddf Tai 1996 ("Deddf 1996") a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 hefyd.

Nodir manylion gweithdrefn y Senedd sy'n gysylltiedig â phob un o'r pwerau hyn ym Mhennod 5 o'r Memorandwm Esboniadol ac nid ydynt yn cael eu hailadrodd yn y ddogfen hon.

**Trosolwg o'r Bil**

Mae'r Bil yn diwygio deddfwriaeth bresennol ym maes digartrefedd a thai yng Nghymru drwy ddiwygio Rhan 2 o Ddeddf 2014 (Digartrefedd) a Rhan 6 o Ddeddf Tai 1996 (Dyrannu tai preswyl) er mwyn gwella prosesau atal a lleddfu digartrefedd yng Nghymru. Hefyd, mae'r Bil yn diwygio Rhan 6 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i osod dyletswydd ar yr awdurdod lleol cyfrifol er mwyn sicrhau bod llety addas ar gael i bobl ifanc sy'n gadael gofal.

Yn gryno, bydd y Bil yn gwneud y canlynol:

- cefnogi prosesau cynharach a mwy costeffeithiol o atal digartrefedd;
- cryfhau mesurau atal wedi'u targedu ar gyfer grwpiau penodol sy'n wynebu risg arbennig o ddigartrefedd;
- ehangu'r cyfrifoldeb drwy'r sector cyhoeddus cyfan am nodi ac atal digartrefedd;
- gwella'r llif allan o wasanaethau digartrefedd drwy roi pwerau newydd ynglŷn â dyrannu tai cymdeithasol.

Nodir y pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth yn y Bil yn y tablau canlynol, ynghyd â'r rhesymau dros y pwerau hyn a'r bwriad polisi ategol.

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid i ddatblygu'r is-ddeddfwriaeth.

| Adran | Ffurf | Y cynnig a disgrifiad o'r pŵer | Gweithdrefn |
|---|---|---|---|
| 6 | Rheoliadau | Mae adran 6(3) yn disodli adran 75 o Ddeddf 2014 yn ei chyfanrwydd. Fel y'i diwygiwyd, mae adran 75 yn gosod dyletswydd ar awdurdod lleol cyfrifol i sicrhau bod llety addas ar gael i geiswyr sy'n ddigartref neu sy'n wynebu risg o fynd yn ddigartref, cyhyd â'u bod yn gymwys i gael cymorth. Mae'r adran hon hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i geisydd fod â chysylltiad lleol ag awdurdod lleol yng Nghymru er mwyn cael hawl i'r ddyletswydd o dan adran 75 oni bai bod y ceisydd yn wynebu risg o gamdriniaeth neu'n dod o dan gategori o berson a ragnodir mewn rheoliadau. Felly, mae'r adran 75(5)(b) newydd yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau i ragnodi categorïau o bersonau a fyddai'n esempt rhag y prawf cysylltiad lleol o dan adran 75 ac felly'n cael hawl i'r ddyletswydd o dan adran 75. | Cadarnhaol |



**Diben a bwriad y polisi**

Mae'r pŵer yn galluogi Gweinidogion Cymru i 'ragnodi categorïau o bersonau' a fyddai'n esempt rhag y prawf cysylltiad lleol o dan adran 75 o Ddeddf 2014 sydd, yn ei thro, yn pennu y byddai gan y cyfryw bersonau hawl i'r ddyletswydd o dan adran 75. Ystyrir bod hyn yn addas ar gyfer rheoliadau gan fod angen hyblygrwydd er mwyn sicrhau y gellir diwygio'r hawl i'r ddyletswydd o dan adran 75 i adlewyrchu cyd-destun geo-wleidyddol sy'n newid (e.e. y cynllun diweddar i gefnogi'r rhai sy'n ffoi rhag y rhyfel yn Wcráin) a sicrhau cysondeb rhwng nifer o ddarpariaethau gwahanol yn y Bil megis yr amodau ar gyfer cysylltiad lleol (yn adran 12(3)), amodau ar gyfer atgyfeirio achos at awdurdod lleol arall (adran 11(7)) ac esemptiad rhag atgyfeiriad at awdurdod lleol arall (adran 13(3)). Hefyd, efallai y bydd angen diwygio'r categorïau o bersonau y dylai fod ganddynt hawl i'r ddyletswydd o dan adran 75 yn y dyfodol er mwyn sicrhau nad oes unrhyw ganlyniadau nac anfanteision anfwriadol i grŵp neu grwpiau penodol. Bydd unrhyw newidiadau yn y dyfodol yn cael eu datblygu ar y cyd â phartneriaid cyflawni.

Bydd y Senedd yn cael cyfle i graffu ar unrhyw reoliadau a gynigir a phleidleisio arnynt.

| Adran | Ffurf | Y cynnig a disgrifiad o'r pŵer | Gweithdrefn |
| --- | --- | --- | --- |
| 11(3) | Rheoliadau | Mae adran 11(3) yn mewnosod is-adrannau (2) i (2B) newydd yn adran 80 o Ddeddf 2014 sy'n cynnwys y ddarpariaeth y dylai atgyfeiriadau cysylltiad lleol ddigwydd cyn y derbynnir dyletswydd o dan adran 66 neu adran 75 (dim ond yng nghyd-destun rhywun yn y carchar y mae adran 66 yn berthnasol).<br><br>Mae'r is-adran (2)(b) newydd o adran 80 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ragnodi amgylchiadau pan fydd yr amodau ar gyfer atgyfeiriad wedi'u bodloni mewn perthynas ag atgyfeirio achos cyn i'r awdurdod lleol dderbyn dyletswydd o dan adran 66 pan fydd person yn y carchar. | Cadarnhaol |
| 11(3) | Rheoliadau | Mae adran 11(3) yn mewnosod is-adrannau (2) i (2B) newydd yn adran 80 o Ddeddf 2014 sy'n cynnwys y ddarpariaeth y dylai atgyfeiriadau cysylltiad lleol | Cadarnhaol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | ddigwydd cyn y derbynnir dyletswydd o dan adran 66 neu adran 75 (dim ond yng nghyd-destun rhywun yn y carchar y mae adran 66 yn berthnasol)<br><br>Mae'r is-adran (2A)(b) newydd o adran 80 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ragnodi amgylchiadau pan fydd yr amodau ar gyfer atgyfeiriad wedi'u bodloni mewn perthynas ag atgyfeirio achos cyn i'r awdurdod lleol dderbyn dyletswydd o dan adran 75. | |

**Diben a bwriad y polisi**

Mae'r pwerau hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi amgylchiadau eraill pan fydd amodau ar gyfer atgyfeiriad wedi'u bodloni. Mae hyn yn rhoi hyblygrwydd i Weinidogion Cymru nodi unrhyw reolau neu amodau yn y dyfodol, yn ychwanegol at y rhai sydd eisoes wedi'u nodi yn adran 80 o Ddeddf 2014, i bennu pwy all fod yn destun atgyfeiriad at awdurdod lleol arall. Bydd yn sicrhau cysondeb â'r pwerau yn adran 6(4) mewn perthynas â'r hawl yn adran 75 ac adran 13(3) sy'n cwmpasu esemptiadau posibl yn y dyfodol rhag atgyfeiriad. Efallai y bydd angen diwygio'r amodau atgyfeirio yn y dyfodol er mwyn sicrhau nad oes unrhyw ganlyniadau nac anfanteision anfwriadol i grŵp neu grwpiau penodol. Bydd unrhyw newidiadau yn y dyfodol yn cael eu datblygu ar y cyd â phartneriaid cyflawni.

Bydd y Senedd yn cael cyfle i graffu ar unrhyw reoliadau a gynigir a phleidleisio arnynt.

| Adran | Ffurf | Y cynnig a disgrifiad o'r pŵer | Gweithdrefn |
| --- | --- | --- | --- |
| 12(2) | Rheoliadau | Mae adran 12(2) yn disodli adran 81(4) o Ddeddf 2014 â phŵer i wneud rheoliadau. Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau i bennu amgylchiadau pan fydd modd cadarnhau cysylltiad lleol ag ardal. | Cadarnhaol |



**Diben a bwriad y polisi**

Mae adran 81(2) o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 yn darparu bod gan berson gysylltiad lleol ag ardal awdurdod tai lleol yng Nghymru neu yn Lloegr os yw'n preswylio yno fel arfer, a bod y preswyliad hwnnw o ddewis y person ei hun, os yw'r person yn cael ei gyflogi yno; o ganlyniad i gysylltiadau teuluol, neu o ganlyniad i amgylchiadau neilltuol. Bwriedir i'r meini prawf hyn ar gyfer cysylltiad lleol gael eu cymhwyso gan awdurdod tai lleol o dan adran 80 er mwyn penderfynu a ellir atgyfeirio ceisydd at awdurdod arall yng Nghymru neu yn Lloegr. Bydd y meini prawf hyn ar gyfer cysylltiad lleol bellach yn gymwys i'r prawf cysylltiad lleol hefyd, sy'n rhan o'r asesiad o hawl o dan adran 75.

Mae adran 12(2) yn disodli adran 81(4) o Ddeddf 2014 â phŵer sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau i bennu'r amgylchiadau:

- pan fydd person yn cael ei drin neu'n peidio â chael ei drin fel person sy'n preswylio mewn ardal fel arfer,
- pan fydd preswyliaeth mewn ardal yn cael ei thrin neu'n peidio â chael ei thrin fel dewis y person ei hun,
- pan fydd person yn cael ei drin neu'n peidio â chael ei drin fel person sy'n cael ei gyflogi mewn ardal,
- pan fydd person yn cael ei drin neu'n peidio â chael ei drin fel person â chysylltiad teuluol ag ardal,
- a fydd neu na fyddant yn cael eu trin yn amgylchiadau neilltuol sy'n cysylltu person ag ardal.

Mae gan Weinidogion Cymru bwerau eisoes i ragnodi dau o'r pum amgylchiad hyn drwy orchymyn, gan gynnwys: yr amgylchiadau pan na fydd person yn cael ei drin fel person sy'n cael ei gyflogi mewn ardal; a, phan na fydd preswyliaeth person mewn ardal yn cael ei thrin fel petai'n ddewis gan y person ei hun. Mae'r ddarpariaeth hon yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddiffinio pob un o'r meini prawf yn fwy manwl gywir.

Bydd y Senedd yn cael cyfle i graffu ar unrhyw reoliadau a gynigir a phleidleisio arnynt.

| Adran | Ffurf | Y cynnig a disgrifiad o'r pŵer | Gweithdrefn |
|---|---|---|---|
| 13(2) | Rheoliad | Mae adran 13(2) yn mewnosod adran 81A newydd yn Neddf 2014, sy'n amlinellu pa geiswyr sy'n esempt rhag atgyfeiriad at awdurdod lleol yng Nghymru neu yn Lloegr. Mae adran 81A(2)(b) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ragnodi categorïau pellach o bersonau i fod wedi'u hesemptio rhag atgyfeiriad at awdurdod tai lleol arall yng Nghymru neu yn Lloegr. | Cadarnhaol |

**Diben a bwriad y polisi**

Mae'r pŵer yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi categorïau pellach o bersonau i fod wedi'u hesemptio rhag atgyfeiriad at awdurdod lleol arall yng Nghymru neu yn Lloegr. Ystyrir bod hyn yn addas ar gyfer rheoliadau am fod angen hyblygrwydd. Efallai y bydd angen ychwanegu at y rhestr o bersonau a ddylai fod yn esempt rhag atgyfeiriad yn y dyfodol er mwyn ymateb i unrhyw anfantais a brofir gan grwpiau penodol, angen sy'n dod i'r golwg neu i ddatblygu trefniadau cilyddol ag awdurdodau yn Lloegr mewn perthynas â grwpiau penodol ymhellach. Byddai angen i'r pŵer hwn fod yn gyson â'r pŵer yn adran 6(4) er mwyn sicrhau, pan fydd rhywun yn esempt rhag atgyfeiriad, fod ganddo'r hawl i gael dyletswydd o dan adran 75 yn yr awdurdod lleol y mae wedi cysylltu ag ef, yn ogystal â'r pŵer yn adran 11(7) sy'n rhoi'r gallu i Weinidogion Cymru ddiffinio'r amodau neu'r amgylchiadau rhagnodedig ar gyfer atgyfeiriad at ardal awdurdod lleol arall.

Bydd y Senedd yn cael cyfle i graffu ar unrhyw reoliadau a gynigir a phleidleisio arnynt.

| Adran | Ffurf | Y cynnig a disgrifiad o'r pŵer | Gweithdrefn |
|---|---|---|---|
| 21(2) | Rheoliad | Mae adran 21(2) yn mewnosod adran 94A newydd (dyletswydd i awdurdod cyhoeddus ofyn a gweithredu) ac<br>adran 94B newydd (awdurdodau cyhoeddus penodedig) yn Neddf 2014.<br>Mae adran 94B(2) yn cynnwys pŵer i wneud rheoliadau i ddiwygio'r rhestr o awdurdodau cyhoeddus penodedig yn adran 94B, sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd yn adran 94A, drwy dynnu neu ychwanegu personau, neu ddisgrifiad o bersonau, neu<br>newid cyfeiriad at berson neu ddisgrifiad o bersonau. | Cadarnhaol |

**Diben a bwriad y polisi**

Mae'r cyrff y mae'r ddyletswydd i ofyn a gweithredu o dan yr adran 94A newydd yn gymwys iddynt wedi'u rhestru yn yr adran 94B(1) newydd. Mae pŵer wedi cael ei gynnwys (adran 94B(2)) i ganiatáu i Weinidogion Cymru ddiwygio adran 94A(1) drwy reoliadau, i hepgor neu ychwanegu cyfeiriad at berson neu ddisgrifiad o berson neu newid cyfeiriad at berson neu ddisgrifiad o berson yn y dyfodol.  Ystyrir bod hyn yn addas ar gyfer rheoliadau am fod angen hyblygrwydd. Efallai y bydd angen diwygio'r rhestr o'r personau hynny (i ychwanegu neu hepgor person penodedig, neu newid disgrifiad o berson) yn y dyfodol er mwyn darparu ar gyfer personau newydd neu wahanol.

Caiff y rheoliadau hynny gynnwys darpariaeth a fyddai'n gofyn am gydsyniad un o Weinidogion y Goron y DU o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 pe bai'r ddarpariaeth yn cael ei chynnwys mewn Deddf gan Senedd Cymru. Cânt hefyd gynnwys darpariaeth a fyddai'n gofyn am ymgynghori ag un o Weinidogion y Goron y DU o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 pe bai'r ddarpariaeth yn cael ei chynnwys mewn Deddf gan Senedd Cymru.

Bydd y Senedd yn cael cyfle i graffu ar unrhyw reoliadau a gynigir a phleidleisio arnynt.

| Adran | Ffurf | Y cynnig a disgrifiad o'r pŵer | Gweithdrefn |
|---|---|---|---|
| 21(3) | Canllawiau | Mae adran 21(3) o'r Bil yn diwygio adran 98 o Ddeddf 2014 i'w gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau cyhoeddus penodedig a restrir yn yr adran 94B newydd roi sylw i ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru wrth arfer eu swyddogaethau o dan yr adran 94A newydd (dyletswydd awdurdodau cyhoeddus i ofyn a gweithredu). | Dim gweithdrefn |

Mae'r ddarpariaeth yn 21(3) yn gosod gofyniad ar yr awdurdodau cyhoeddus a bennir yn adran 94A i roi sylw i ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru mewn perthynas ag ymgymryd â'u dyletswydd i "ofyn a gweithredu" o dan adran 94A. Bydd hyn yn sicrhau bod canllawiau a gyhoeddir sy'n ymwneud â'r ddyletswydd benodol i "ofyn a gweithredu" yn cael eu hystyried gan bob corff cyhoeddus penodedig wrth gyflawni ei swyddogaethau o dan adran 94A.

Ystyrir bod canllawiau yn briodol am y bwriedir iddynt hwyluso'r broses o gymhwyso'r ddeddfwriaeth sylfaenol newydd a'i rhoi ar waith.

Bydd canllawiau yn cael eu cyhoeddi gan Weinidogion Cymru ac ni fyddant yn destun gweithdrefn gan y Senedd.

Bydd y Senedd yn cael cyfle i graffu ar unrhyw reoliadau a gynigir a phleidleisio arnynt.

| Adran | Ffurf | Y cynnig a disgrifiad o'r pŵer | Gweithdrefn |
|---|---|---|---|
| 23(4) | Rheoliad | Mae adran 23(4) o'r Bil yn diwygio Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i ddisodli'r pŵer presennol yn adran 109(3) â phŵer newydd yn adran 109A i wneud rheoliadau ynglŷn ag ystyr “llety addas” at ddibenion y ddyletswydd bresennol yn adran 109 i roi cymorth i berson ifanc categori 2 ac at ddibenion y ddyletswydd newydd yn adran 108A (fel y'i mewnosodwyd gan adran 23(2) o'r Bil) er mwyn sicrhau bod llety addas ar gael i bobl ifanc sy'n gadael gofal. | Negyddol |



**Diben a bwriad y polisi**

Mae'r pŵer hwn yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod y llety a roddir i bobl ifanc wrth iddynt bontio o ofal i fyw'n annibynnol yn addas at anghenion y grŵp hwn ac mae'n rhoi hyblygrwydd i Weinidogion Cymru ymateb i faterion ynglŷn â'r cyflenwad o lety neu ddarparwyr yn gyflym, gan sicrhau nad yw pobl ifanc yn cael eu rhoi mewn llety anaddas.

| Adran | Ffurf | Y cynnig a disgrifiad o'r pŵer | Gweithdrefn |
| --- | --- | --- | --- |
| 32(2) | Rheoliad | Mae adran 95 o Ddeddf 2014 yn ymwneud â'r ddyletswydd i gydweithredu. Mae adran 32(2) o'r Bil yn rhoi is-adrannau (5)-(7) newydd yn lle is-adrannau (5)-(8) o adran 95 o Ddeddf 2014. Mae'r is-adran (5) newydd yn cynnwys rhestr ehangach o bersonau sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd i gydweithredu ac mae'r is-adran (6) newydd yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ddiwygio'r rhestr honno drwy dynnu neu ychwanegu personau, neu ddisgrifiad o berson neu ddisgrifiad o'r cyfryw bersonau. | Cadarnhaol |

**Diben a bwriad y polisi**

Er mwyn atal digartrefedd yn effeithiol mae angen dull gweithredu amlasiantaethol.  Bydd yn angenrheidiol i Weinidogion Cymru gadw'r gallu i ddiwygio'r rhestr o gyrff sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd i gydweithredu er mwyn ymateb i ymarfer sy'n newid a helpu awdurdodau lleol i alw am gymorth i atal digartrefedd gan y cyrff perthnasol.

Caiff y rheoliadau hynny gynnwys darpariaeth a fyddai'n gofyn am gydsyniad un o Weinidogion y Goron y DU o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 pe bai'r ddarpariaeth yn cael ei chynnwys mewn Deddf gan Senedd Cymru. Cânt hefyd gynnwys

darpariaeth a fyddai'n gofyn am ymgynghori ag un o Weinidogion y Goron y DU o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 pe bai'r ddarpariaeth yn cael ei chynnwys mewn Deddf gan Senedd Cymru.

Bydd y Senedd yn cael cyfle i graffu ar unrhyw reoliadau a gynigir a phleidleisio arnynt.

| Adran | Ffurf | Y cynnig a disgrifiad o'r pŵer | Gweithdrefn |
|---|---|---|---|
| 33 | Canllawiau | Mae adran 33 yn mewnosod adran 96A newydd yn Neddf 2014 sy'n darparu bod yn rhaid i landlord cymdeithasol gydymffurfio â chais gan awdurdod lleol i roi llety i geisydd digartref y mae'r brif ddyletswydd tai yn ddyledus iddo, o fewn cyfnod rhesymol, oni bai bod rheswm da dros beidio â chydymffurfio. At hynny, mae'n rhaid i'r landlord cymdeithasol gydymffurfio â chais rhesymol am wybodaeth sy'n ymwneud â swyddogaethau'r awdurdod lleol o dan yr adran hon.<br>Mae adran 96A(6) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru roi canllawiau i landlordiaid cymdeithasol ar yr hyn sy'n gyfystyr â rheswm da dros beidio â chydymffurfio, cyfnod rhesymol i gydymffurfio a chais rhesymol gan awdurdod lleol i ddarparu gwybodaeth.<br>Mae adran 96A(8) yn gosod gofyniad ar landlordiaid cymdeithasol i roi sylw i | Dim gweithdrefn |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | ganllawiau a roddir o dan yr adran hon. | |
| 33 | Cyfarwyddyd | Mae adran 33 hefyd yn mewnosod adran 96B newydd yn Neddf 2014. Mae adran 96B(5) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru gyfarwyddo landlordiaid cymdeithasol i gydymffurfio â chais gan yr awdurdod tai lleol a wneir o dan adran 96A (gweler uchod) o fewn y cyfryw gyfnod ag a bennir yn y cyfarwyddyd. | Dim gweithdrefn |



**Diben a bwriad y polisi**

Diben y pŵer i roi canllawiau yn adran 96A(6) mewn perthynas â'r ddyletswydd newydd hon yw nodi disgwyliadau Gweinidogion Cymru ynglŷn â'r hyn sy'n gyfystyr â rheswm da i landlord cymdeithasol beidio â chydymffurfio â chais gan awdurdod tai lleol o dan adran 96A, y cyfnod y mae'n rhaid cydymffurfio â chais oddi mewn iddo a'r hyn sy'n gyfystyr â chais rhesymol. Yna, bydd angen i landlordiaid cymdeithasol roi sylw i gynnwys y canllawiau hynny.

Ystyrir bod canllawiau yn briodol am y bwriedir iddynt hwyluso'r broses o gymhwyso'r ddeddfwriaeth sylfaenol newydd a'i rhoi ar waith. Bydd y canllawiau hyn yn rhoi gwybodaeth fanylach i helpu landlordiaid cymdeithasol i ddeall eu rhwymedigaethau o dan adran 96A. Bydd canllawiau yn cael eu cyhoeddi gan Weinidogion Cymru ac ni fyddant yn destun gweithdrefn gan y Senedd.

O dan adran 96B, pe bai landlord cymdeithasol yn methu ag ymateb neu'n methu â chydymffurfio â'r cais hwn o fewn cyfnod rhesymol ac nad oes ganddo reswm da dros beidio â chydymffurfio, gall yr awdurdod tai lleol atgyfeirio'r mater at Weinidogion Cymru. Mae'r adran 96B(5) newydd yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru gyfarwyddo landlord cymdeithasol i gydymffurfio â chais os

ydynt yn cytuno, ar ôl ystyried yr achos, nad oedd gan y landlord cymdeithasol reswm da dros beidio â chydymffurfio neu nad oedd wedi ymateb o fewn cyfnod rhesymol.

Diben y pŵer hwn yw rhoi dull o ddatrys anghydfodau i Weinidogion Cymru, pan fydd awdurdodau tai lleol a landlordiaid cymdeithasol yn methu â chytuno ar y cais a wnaed, neu pan na fydd landlordiaid cymdeithasol yn ymateb i'r cais, er mwyn ystyried y ffactorau a'r dystiolaeth a gyflwynwyd, a chaniatáu i gyfarwyddyd gael ei wneud y mae'n rhaid cydymffurfio ag ef. Mae'n rhaid i unrhyw gyfryw gyfarwyddyd fod yn ysgrifenedig a gellir ei amrywio neu ei ddirymu drwy gyfarwyddyd diweddarach. Mae cyfarwyddyd yn orfodadwy drwy orchymyn gorfodol ar gais, neu ar ran, Gweinidogion Cymru neu'r awdurdod tai lleol a wnaeth yr atgyfeiriad.

Nodir sylwedd y pŵer i roi cyfarwyddyd ar wyneb y Bil ac mae'n gyfyngedig o ran ei gwmpas ac, fel y cyfryw, nid ystyrir ei bod yn briodol cymhwyso gweithdrefn gan y Senedd.

| Adran | Ffurf | Y cynnig a disgrifiad o'r pŵer | Gweithdrefn |
|---|---|---|---|
| 35(4) | Rheoliadau | Mae adran 35(4) o'r Bil yn mewnosod is-adrannau (6A)–(6C) newydd yn adran 160A o Ddeddf Tai 1996, sydd, fel y'i diwygiwyd, yn ymwneud â dyrannu tai cymdeithasol i bersonau cymwys a chymhwysol yn unig. Mae is-adran (6B) yn galluogi awdurdod tai lleol i benderfynu pa ddosbarthiadau o bersonau sydd, neu nad ydynt, yn bersonau cymhwysol, yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau yn adran 160A (fel y'i diwygiwyd) a hefyd o dan unrhyw reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan yr is-adran (6C) newydd. Mae is-adran (6C) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ragnodi dosbarthiadau o bersonau a fydd, neu na fyddant, yn cael eu trin yn bersonau cymhwysol, a rhagnodi meini prawf na all awdurdodau tai lleol eu defnyddio wrth benderfynu pa ddosbarthiadau o bersonau nad ydynt yn bersonau cymhwysol. | Negyddol |

**Diben a bwriad y polisi**

Mae adran 35 o'r Bil yn diwygio adran 160A o Ddeddf Tai 1996. Ar hyn o bryd, mae adran 160A yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod tai lleol ddyrannu llety i bersonau cymwys yn unig, fel y'i nodwyd yn yr adran honno.  Mae adran 160A, fel y'i diwygiwyd, yn caniatáu i awdurdod tai lleol benderfynu a nodi ei reolau ei hun ynghylch pwy sydd, neu nad ydynt yn 'bersonau cymhwysol' at ddibenion dyrannu tai cymdeithasol. Mae'r disgresiwn hwn yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau ar gymhwystra a chymhwyso fel y darparwyd ar eu cyfer yn is-adrannau (3), (5), (7) (fel y'u diwygiwyd) a'r is-adran (8A) newydd a hefyd o dan unrhyw reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan yr is-adran (6C) newydd.  Mae'r pŵer i wneud rheoliadau yn is-adran (6C) yn caniatáu i Weinidogion Cymru ragnodi dosbarthiadau o bersonau a fydd, neu na fyddant, yn cael eu trin yn bersonau cymhwysol, a rhagnodi meini prawf na all awdurdodau tai lleol eu defnyddio wrth benderfynu pa ddosbarthiadau o bersonau nad ydynt yn bersonau cymhwysol.

Ystyrir bod hyn yn addas ar gyfer rheoliadau am fod angen hyblygrwydd er mwyn caniatáu i Weinidogion Cymru ymateb i newidiadau yn y dyfodol ac anghenion tai sy'n datblygu, a lle y bo angen, er mwyn cynnig mesurau diogelu i sicrhau nad yw unigolion cymwys sydd â'r angen mwyaf dybryd o ran tai yn cael eu hallgau.

Fel gweithdrefn negyddol, ni fydd y Senedd yn cael cyfle i graffu na phleidleisio ar unrhyw reoliadau a gynigir.

| Adran | Ffurf | Y cynnig a disgrifiad o'r pŵer | Gweithdrefn |
| --- | --- | --- | --- |
| 38 | Rheoliad | Mae adran 38 yn mewnosod adrannau 160B i 160E newydd yn Neddf Tai 1996 sy'n ymwneud â chofrestrau tai cyffredin a chofrestrau tai hygyrch. Mae'r adran 160D(1) newydd yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i wneud darpariaeth ar gyfer cofrestrau tai cyffredin ac mewn cysylltiad â chofrestrau tai cyffredin. Caiff y rheoliadau, yn benodol, wneud darpariaeth ynghylch:<br>(a) diwygio a dileu cofnodion yn y gofrestr mewn perthynas â pherson;<br>(b) rhoi hysbysiad;<br>(c) yr wybodaeth a gaiff ei chynnwys ar y gofrestr neu y mae'n rhaid ei chynnwys ar y gofrestr;<br>(d) ei gwneud yn ofynnol datgelu gwybodaeth a geir ar y gofrestr i berson neu ddisgrifiad o berson a bennir | Negyddol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | yn y rheoliadau neu awdurdodi'r cyfryw ddatgeliad;<br>(e) rhoi swyddogaethau i awdurdodau tai lleol yng Nghymru. | |
| 38 | Rheoliad | Mae adran 38 yn mewnosod adrannau 160B i 160E newydd yn Neddf Tai 1996 sy'n ymwneud â chofrestrau tai cyffredin a chofrestrau tai hygyrch. Mae'r adran 160E(2) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i wneud darpariaeth ar gyfer cofrestrau tai hygyrch ac mewn cysylltiad â chofrestrau tai hygyrch. Caiff y rheoliadau, yn benodol, wneud darpariaeth ynghylch:<br>(a) diwygio a dileu cofnod yn y gofrestr mewn perthynas â thai preswyl;<br>(b) rhoi hysbysiad;<br>(c) yr wybodaeth a gaiff ei chynnwys ar y gofrestr neu y mae'n rhaid ei chynnwys ar y gofrestr;<br>(d) ei gwneud yn ofynnol datgelu gwybodaeth a geir ar y gofrestr i berson neu ddisgrifiad o berson a bennir yn | Negyddol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | y rheoliadau neu awdurdodi'r cyfryw ddatgeliad;<br>(e) rhoi swyddogaethau i awdurdodau tai lleol yng Nghymru | |

**Diben a bwriad y polisi**

Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod tai lleol yng Nghymru sefydlu a chynnal:

- Cofrestr Tai Cyffredin, y mae'n rhaid i bob darparwr tai cymdeithasol ddyrannu tai cymdeithasol iddi, a;
- Cofrestr Tai Hygyrch, o'r holl lety a ddelir gan bob darparwr tai cymdeithasol sy'n cynnwys nodweddion a fydd yn galluogi personau anabl i fyw'n annibynnol ynddynt.

Bydd yr adrannau 160D(1) a 160E(2) newydd (fel y'u mewnosodwyd gan adran 38 o'r Bil) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i bennu gofynion pellach mewn perthynas â Chofrestrau Tai Cyffredin a Chofrestrau Tai Hygyrch ynglŷn â sut y caiff cofnodion eu hychwanegu, eu diwygio a'u tynnu oddi ar y gofrestr a pha wybodaeth y gellir ei chynnwys ar y gofrestr. Mae angen rheoliadau ar gyfer hyn er mwyn rhoi hyblygrwydd mewn ymateb i'r ffyrdd amrywiol y mae cofrestrau tai cymdeithasol a systemau dyrannu yn gweithredu yng Nghymru ac er mwyn sicrhau y gellir unioni unrhyw ganlyniadau anfwriadol sy'n deillio o'r newid yn gyflym os bydd angen.

Fel gweithdrefn negyddol, ni fydd y Senedd yn cael cyfle i graffu na phleidleisio ar unrhyw reoliadau a gynigir.

| Adran | Ffurf | Y cynnig a disgrifiad o'r pŵer | Gweithdrefn |
|---|---|---|---|
| 41 | Rheoliad | Pŵer i wneud rheoliadau i wneud darpariaeth sy'n gysylltiedig ag unrhyw ddarpariaeth yn y Bil neu sy'n atodol i unrhyw ddarpariaeth yn y Bil, neu sy'n ganlyniadol i unrhyw ddarpariaeth yn y Bil, a gwneud darpariaeth drosiannol, darpariaeth ddarfodol neu ddarpariaeth arbed mewn cysylltiad ag unrhyw ddarpariaeth yn y Bil. Mae hyn yn cynnwys diwygio, diddymu neu ddirymu unrhyw ddeddfwriaeth sylfaenol neu is-ddeddfwriaeth (gan gynnwys unrhyw un o ddarpariaethau'r Bil hwn) cyhyd â'u bod yn ymwneud ag un o'r darpariaethau uchod. | Cadarnhaol oni bai bod is-ddeddfwriaeth yn cael ei diwygio. Yna bydd unrhyw reoliadau a wneir o dan yr adran hon yn destun y weithdrefn negyddol. |

**Diben a Bwriad y Polisi**

Darpariaethau safonol mewn Biliau yw'r rhain y bwriedir iddynt alluogi Gweinidogion Cymru i wneud diwygiadau atodol, cysylltiedig, trosiannol neu ganlyniadol i ddeddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth er mwyn gweithredu'r Bil yn llawn.

Yn aml defnyddir darpariaethau trosiannol ac arbed er mwyn sicrhau proses bontio ddidrafferth rhwng cyfundrefnau presennol a newydd.

Mae'n debygol y bydd angen inni ddefnyddio'r pwerau hyn. Byddwn yn cydgysylltu â rhanddeiliaid perthnasol ar yr angen am ddarpariaethau o'r fath.

Bydd y Senedd yn cael cyfle i graffu a phleidleisio ar reoliadau a fydd yn diwygio'r Bil oni bai bod y rhain yn ymwneud â diwygiadau i is-ddeddfwriaeth.

| Adran | Ffurf | Y cynnig a disgrifiad o'r pŵer | Gweithdrefn |
|---|---|---|---|
| 42 | Gorchymyn | Mae'r adran hon yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru gychwyn darpariaethau'r Bil drwy orchymyn. Gellir gwneud darpariaethau trosiannol neu arbed mewn cysylltiad â'r darpariaethau yn dod i rym. | Dim gweithdrefn |

**Diben a Bwriad y Polisi**

Mae hon yn ddarpariaeth safonol mewn Bil sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i gychwyn darpariaethau fel a phryd y bydd yn briodol gwneud hynny.

Mae adran 42(1) yn amlinellu pa adrannau a ddaw i rym y diwrnod ar ôl y diwrnod y mae'r Ddeddf yn cael Cydsyniad Brenhinol, ac mae adran 56(2) yn darparu pa adrannau a ddaw i rym ddeufis ar ôl i'r Ddeddf gael Cydsyniad Brenhinol. Mae adran 41(2) yn darparu y daw'r darpariaethau eraill i rym ar ddiwrnod a bennir gan Weinidogion Cymru drwy arfer y pŵer hwn i wneud gorchymyn. Mae'n briodol cychwyn darpariaethau drwy orchymyn gan y bydd angen sicrhau bod y trefniadau gweithredu ar waith cyn y daw'r adrannau i rym.

# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
# 23 Mehefin 2025

## SL(6)618 – Rheoliadau Dileu Atebolrwydd dros Fenthyciadau i Fyfyrwyr at Gostau Byw (Cymru) 2025

### Gweithdrefn: Gwneud Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer dileu hyd at £1,500 o fenthyciad ar gostau byw (a elwir hefyd yn fenthyciad cynhaliaeth) myfyriwr israddedig llawnamser ar gyfer blwyddyn academaidd 2025/26 o dan amgylchiadau penodol.

Bydd y dilead yn dod i rym o'r diwrnod ar ôl y dyddiad y derbynnir ad-daliad benthyciad cyntaf y myfyriwr. Ni fydd hyn ar ffurf cyfandaliad arian parod; yn hytrach, bydd balans benthyciad unigolyn yn cael ei ostwng yn ôl y swm priodol y diwrnod ar ôl i ad-daliad cyntaf y benthyciwr gael ei wneud.

Dim ond unwaith y gall myfyriwr gael dilead rhannol; ni all gael dilead rhannol mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd 2025/26 os yw eisoes wedi cael dilead mewn cysylltiad ag unrhyw flwyddyn academaidd flaenorol. Ni fydd gan fyfyriwr hawl i gael dilead rhannol os oes unrhyw gosbau neu daliadau heb eu talu neu os yw'n torri cytundeb ei fenthyciad neu unrhyw reoliadau a wneir o dan adran 22 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998.

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998

**Fe'u gwnaed ar:** 03 Mehefin 2025

**Fe'u gosodwyd ar:** 05 Mehefin 2025

**Yn dod i rym ar:** 01 Awst 2025

# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
# 23 Mehefin 2025

## SL(6)619 – [Rheoliadau Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (Eithriadau ac Amrywio Terfynau Gwariant Ymgyrch) (Cymru) 2025]

### Gweithdrefn: Cadarnhaol

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Atodlenni 8, 8A a 9 i Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 ("Deddf 2000").

Mae adran 79 a pharagraff 6 o atodlen 9 i Ddeddf 2000 yn gosod terfynau gwariant ymgyrch ar gyfer pleidiau gwleidyddol sydd wedi'u cofrestru gyda'r Comisiwn Etholiadol ac sy'n ymladd etholiad cyffredinol y Senedd. O ganlyniad i ddiwygio'r Senedd, nid yw'r terfynau bellach yn gweithredu fel y bwriadwyd ac mae'r rheoliadau hyn yn diwygio atodlen 9 i'w hamrywio. Mae'r Comisiwn Etholiadol wedi cydsynio i'r gwelliant hwnnw. Mae adran 72 ac atodlen 8 yn nodi pa fathau o dreuliau y dylid eu hystyried yn dreuliau ymgyrch, ac felly'n ddarostyngedig i'r terfyn, a pha fathau o dreuliau na ddylid eu hystyried. Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio atodlen 9 i ddarparu nad yw treuliau sy'n gysylltiedig â diogelwch yn ddarostyngedig i'r terfyn. Mae'r Comisiwn Etholiadol yn argymell y gwelliant hwn.

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000, Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024

**Fe'u gwnaed ar:**

**Fe'u gosodwyd ar:**

**Yn dod i rym ar:** 04 Gorffennaf 2025

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Jayne Bryant AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai

18 Mehefin 2025

Annwyl Jayne,

Gorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2025

Yn ein cyfarfod ar 16 Mehefin 2025, trafododd y Pwyllgor eich ymateb, dyddiedig 12 Mehefin 2025, i'n llythyr dyddiedig 4 Mehefin, ac ymateb ffurfiol Llywodraeth Cymru i'n hadroddiad ynghylch Gorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2025 (y Gorchymyn Cynnal Etholiadau).

Er bod y Pwyllgor yn croesawu ymateb manwl y Llywodraeth i'r pwyntiau a godwyd yn adroddiad y Pwyllgor, roedd ein llythyr yn gofyn i chi am eglurder ynghylch y broses a arweiniodd at osod Gorchymyn Cynnal Etholiadau gerbron y Senedd a oedd yn cynnwys y gwallau a'r anghysondebau a nodwyd gennym. Nid yw eich ymateb i'r Pwyllgor yn cynnig yr eglurder hwn. Mae hyn yn siomedig.

Yn ein llythyr atoch, cydnabu'r Pwyllgor fod y Gorchymyn Cynnal Etholiadau yn un mawr, ond serch hynny mynegodd bryder ynghylch problemau mawr o ran drafftio diffygiol ac achosion lle nad yw'r testunau Cymraeg a Saesneg yn cyfateb. Mae bellac gan y Pwyllgor bryderon tebyg am y ffaith eich bod yn cynnig mynd i'r afael â mwy nag 20 o bwyntiau a godwyd yn ein hadroddiad drwy'r broses cywiro cyn gwneud.

Mewn llythyr at y Pwyllgor ym mis Mehefin 2024, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol blaenorol y byddai cywiriadau'n cael eu gwneud i offeryn ar ôl i'r Senedd ei gymeradwyo a chyn iddo gael ei wneud yn gyfraith gan Weinidog Cymru dim ond "pan fo'r camgymeriad dan sylw yn fân iawn". Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol blaenorol wrth y Pwyllgor hefyd "mae yna ddiogelwch pellach y gall y Senedd ond wneud yr offeryn os caiff ei gymeradwyo (gan wybod y cywiriad arfaethedig)". O ran y mater hwn, rydym yn cydnabod eich bod wedi tynnu sylw'r Senedd at y cywiriadau arfaethedig.

Fodd bynnag, er y gall pob camgymeriad a nodwyd gan y Pwyllgor ac yr ydych yn bwriadu ei gywiro cyn gwneud fod yn "fân", efallai bod cywiro mwy nag 20 o gamgymeriadau mewn offeryn ar ôl iddo gael ei gymeradwyo gan y Senedd yn ddefnydd afresymol ac amhriodol o'r broses cywiro cyn gwneud.

Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol blaenorol wrth y Pwyllgor mai barn Llywodraeth Cymru yw "nad yw cywiriad sy'n newid offeryn yn sylweddol mewn unrhyw ffordd (heb sôn am newid bwriad polisi sylfaenol yr offeryn hwnnw), yn un y gellir delio ag ef wrth ei wneud". Nid yw'n glir i'r Pwyllgor a ydych chi wedi ystyried a yw cyfanswm pob cywiriad arfaethedig yn gyfystyr â newid yr offeryn yn sylweddol. Mae eich datganiad nad ydych yn credu bod unrhyw un o'r materion a adroddwyd arnynt gan y Pwyllgor yn codi unrhyw broblemau sy'n peryglu uniondeb cyffredinol y Gorchymyn yn asesiad gwahanol o ran a ystyrir bod yr offeryn y gwnaeth y Senedd graffu arno a'i gymeradwyo wedi'i newid yn sylweddol cyn cael ei wneud yn gyfraith.

Ar ben hynny, ar ôl ystyried eich cywiriadau arfaethedig, mae gennym bryderon hefyd na fydd rhai ohonynt yn mynd i'r afael â'r gwallau a'r problemau a nodwyd yn ein hadroddiad. Er enghraifft, yn y fersiwn Gymraeg o'r Gorchymyn Cynnal Etholiadau, mae'n ymddangos bod angen nodi testun cyfan yr holl ddiffiniadau yn Saesneg yn rheol 2(2) o Reolau Deisebau Etholiad 1960 yn hytrach na dim ond y termau diffiniedig eu hunain. Felly, nid yw'n glir i'r Pwyllgor a yw'r newidiadau arfaethedig i baragraff 2(1) o Atodlen 9 o'r Gorchymyn yn gywir, gan mai dim ond y termau diffiniedig y maent yn eu newid yn hytrach na'r diffiniadau cyfan.

Yn eich llythyr, rydych yn cadarnhau y gofynnir i'r Senedd ystyried y Gorchymyn fel y'i gosodwyd ar 8 Gorffennaf. Felly, byddai'r Pwyllgor yn croesawu ymateb brys i'r materion hyn.

Wrth ymateb i'r materion a godwyd uchod, byddai'r Pwyllgor hefyd yn croesawu eglurhad o ran bwriadau Llywodraeth Cymru ynghylch cofrestru pleidleiswyr yn awtomatig. Mae'r Pwyllgor yn ymwybodol bod datganiad i fod i gael ei wneud i'r Senedd yr wythnos hon.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gwir Anrhydeddus Eluned Morgan AS, Prif Weinidog Cymru, Julie James AS, y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni, a'r Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS, y Llywydd.

Yn gywir,

Mike Hedges

Mike Hedges
Cadeirydd

**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddDCC@senedd.cymru

17 Mehefin 2025

**Y Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: Y Grŵp Rhyngweinidogol ar Gyfiawnder**

Rwy'n ysgrifennu yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyng-sefydliadol i roi gwybod ichi y bydd cyfarfod cyntaf y Grŵp Rhyngweinidogol ar Gyfiawnder ers i'r llywodraeth newid, yn cael ei gynnal ar 3 Gorffennaf yn y State Room, Dover House, yn Llundain.

Disgwylir i'r cyfarfod gael ei gadeirio gan yr Arglwydd Ponsonby, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder, a byddaf yn bresennol i gynrychioli Llywodraeth Cymru. Mae'r cyfarfod yn debygol o ganolbwyntio ar amryw o faterion, gan gynnwys capasiti carchardai, nifer yr achosion sy'n aros i ddod gerbron llys, llwythi achosion, a chymorth cyfreithiol.

Byddaf yn rhoi diweddariad ar ôl y cyfarfod.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip.

Yn gywir

Julie James

**Julie James AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni
Counsel General and Minister for Delivery

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Cwnsler.Cyffredinol@llyw.cymru
correspondence.Counsel.General@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Jane Hutt AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip**
**Cabinet Secretary for Social Justice, Trefnydd and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mike Hedges AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
mike.hedges@senedd.wales

17 Mehefin 2025

Annwyl Mike,

Rwy'n ysgrifennu i ddiolch i chi ac aelodau'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad am y gwaith helaeth yr ydych wedi'i wneud hyd yma o ran datblygu a dilyniant Bil Diogelwch y Ffin, Lloches a Mewnfudo Llywodraeth y DU.
Diolch am y gwaith hyd yma ar lunio'r adroddiad diweddaraf, o'r enw '*Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar Fil Diogelwch y Ffin, Lloches a Mewnfudo'.*

Gan nad yw'r ddogfen yn gwneud unrhyw argymhellion a bod y casgliadau yn yr adroddiad eisoes wedi cael sylw mewn gohebiaeth flaenorol, ni wnaf ymateb ar yr adroddiad cyfan. Ond roeddwn am fanteisio ar y cyfle hwn i ailadrodd pa mor bwysig yw, ac *a fydd*, gwaith y Pwyllgor wrth i'r Mesur hwn fynd yn ei flaen drwy Dŷ'r Arglwyddi a thrwy'r Cyfnod Pwyllgor.

Jane Hutt

**Jane Hutt AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip
Cabinet Secretary for Social Justice, Trefnydd and Chief Whip

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt @gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Rebecca Evans AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio**
**Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our Ref: MA/RE/1216/25

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

17 Mehefin 2025

Annwyl Mike,

Rwy'n ysgrifennu atoch i ymateb i adroddiadau'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Rhif 3 a Rhif 4, a osodwyd mewn perthynas â'r Bil Data (Defnyddio a Mynediad) ("y Bil").

Fel y gwyddoch, cynhaliwyd dadl cyfarfod llawn y Senedd ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil ar 6 Mai 2025. Fy argymhelliad oedd bod y Senedd yn rhoi ei chydsyniad i'r darpariaethau perthnasol yn y Bil, ac rwy'n falch bod y cynnig wedi'i dderbyn. Ers hynny, rwyf wedi gosod Memorandwm Atodol arall (Rhif 5) ar 16 Mai 2025 ynghylch darpariaethau yn Rhan 3 o'r Bil, sy'n ddarpariaeth atodol i'r cymalau y ceisiwyd cydsyniad ar eu cyfer yn flaenorol.

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor am ystyried Memoranda Atodol Rhif 3 a Rhif 4. Rwyf wedi ystyried y casgliadau a nodir yn yr adroddiad ar Femorandwm Atodol Rhif 3 a hefyd y pwyntiau y tynnwyd sylw atynt yn yr adroddiad ar Femorandwm Atodol Rhif 4.

Cydsyniad Deddfwriaethol

Rwy'n falch bod y Pwyllgor yn parhau i gytuno ag asesiad Llywodraeth Cymru o ddarpariaethau yn y Bil sy'n gofyn am gydsyniad y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 29.

Rhan 3 o'r Bil (Cofrestr Asedau Tanddaearol Genedlaethol)

O ran darpariaethau'r Gofrestr Asedau Tanddaearol Genedlaethol, nodaf fod y Pwyllgor yn croesawu gwelliant Llyw 5 a gyflwynwyd ar 25 Mawrth 2025 a'i fod hefyd o'r farn bod gwelliannau Llyw 1-Llyw 4 yn gwella'r Bil fel y'i cyflwynwyd.

Fel yr amlinellais yn ystod y ddadl ar y cynnig, y dull deddfwriaethol a ddefnyddiwyd yn Rhan 3 o'r Bil fel y'i cyflwynwyd oedd wedi achosi'r pryder mwyaf i Lywodraeth Cymru o safbwynt cyfansoddiadol. Un pryder penodol oedd diddymu Rheoliadau Gwaith Stryd (Cofnodion) (Cymru) 2005 ac ymestyn y rheoliadau cyfatebol yn Lloegr, sef Rheoliadau

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gwaith Stryd (Cofnodion) (Lloegr) 2002, i Gymru. Roedd y diwygiadau a gyflwynwyd i ddarpariaethau'r Gofrestr Genedlaethol yn dangos consesiwn sylweddol ar ran Llywodraeth y DU a byddant yn sicrhau bod buddiannau datganoledig yn parhau i gael eu diogelu wrth ddatblygu is-ddeddfwriaeth bellach sy'n ymwneud â chreu'r Gofrestr Genedlaethol.

O ran sut y mae anghytundebau posibl ynghylch a yw darpariaeth a wneir o dan Ran 3A yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, gallaf sicrhau'r Pwyllgor y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth y DU ar lefel swyddogion a Gweinidogion drwy gydol y broses ddeddfwriaethol a thu hwnt, er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw achosion o anghytuno.

O ran y darpariaethau cydsyniad sydd bellach wedi'u cynnwys yn Rhan 3 o'r Bil, gallaf hefyd sicrhau'r Pwyllgor y bydd Llywodraeth Cymru yn ysgrifennu at bwyllgorau perthnasol y Senedd i roi gwybod iddynt am fwriad i roi cydsyniad i Lywodraeth y DU arfer pŵer deddfwriaethol dirprwyedig mewn maes datganoledig mewn perthynas â Chymru. Mae hyn yn unol â'r Cytundeb Cysylltiadau Rhyng-sefydliadol a bydd yn cynnwys esboniad ynghylch y rhesymeg dros y bwriad i roi cydsyniad. Pan fydd amser yn caniatáu, bydd cyfle wrth gwrs yn cael ei roi i'r Senedd fynegi barn cyn i'r cydsyniad gael ei roi'n ffurfiol. Yna bydd Datganiad ysgrifenedig yn dilyn.

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r Comisiwn Geo-ofodol ar y prosiect Cofrestr Asedau Tanddaearol Genedlaethol ers nifer o flynyddoedd ac fe wnaethom ddechrau treialu'r Gofrestr Genedlaethol yma yng Nghymru yn 2021. O ystyried y pwnc, rwy'n fodlon bod pwerau gwneud rheoliadau'n cael eu rhoi i'r Ysgrifennydd Gwladol yn unig mewn perthynas â'r Gofrestr Asedau Tanddaearol Genedlaethol.

Materion sy'n peri pryder yn Rhannau 1 a 2 o'r Bil nad ydynt wedi'u datrys

Bydd y Pwyllgor yn ymwybodol bod asesiad Llywodraeth y DU o'r angen am gydsyniad deddfwriaethol ar gyfer Rhannau 1 a 2 o'r Bil yn wahanol i asesiad Llywodraeth Cymru. Er bod Llywodraeth Cymru wedi mynd ar drywydd diwygiadau i roi rôl ffurfiol i Weinidogion Cymru, roeddem hefyd yn cydnabod y ddadl a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU ynghylch i ba raddau roeddent yn credu bod y darpariaethau hyn wedi cael eu datganoli. Roedd Llywodraeth Cymru hefyd yn cydnabod y manteision y bydd darpariaethau Rhan 1 a 2 yn eu cynnig i bobl Cymru, yn enwedig pan fyddant yn cael eu darparu ledled y DU. Bydd cael yr un drefn reoleiddio Data Clyfar ar waith ledled y DU yn symleiddio gweithrediadau ac yn sicrhau bod defnyddwyr a busnesau'n elwa, ni waeth ble maen nhw'n byw na ble maen nhw wedi'u lleoli. Bydd cael un Cod Ymarfer ar gyfer y DU gyfan mewn perthynas â rhannu gwybodaeth bersonol at ddibenion dilysu digidol yn osgoi unrhyw wahaniaethau o ran canllawiau. Bydd hyn yn atal dryswch rhwng awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru a darparwyr gwasanaethau adnabod ar draws y DU, y byddant yn darparu'r wybodaeth iddynt.

Yng Nghasgliad 6 eich adroddiad ar Femorandrwm Atodol Rhif 3, tynnodd y Pwyllgor sylw at y ffaith bod pryderon Llywodraeth Cymru ynghylch darpariaethau tebyg ym Mil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol Llywodraeth flaenorol y DU wedi arwain Llywodraeth Cymru i argymell i'r Senedd na ddylid rhoi cydsyniad. Fel y nodais yn y ddadl ar y cynnig ar 7 Mai, yr hyn a oedd yn allweddol i'r argymhelliad na ddylid rhoi cydsyniad ar gyfer y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol oedd y dull a ddefnyddiwyd yng nghyswllt darpariaethau'r Gofrestr Genedlaethol. Bydd y Pwyllgor yn cofio y nodwyd ar y pryd y byddai'n gwbl amhriodol tynnu swyddogaeth weithredol ddatganoledig oddi wrth Weinidogion Cymru heb gytundeb. Mae ymgysylltu â Llywodraeth bresennol y DU wedi datrys y mater hwn ac mae'r gwelliannau a gyflwynwyd i ddarpariaethau'r Gofrestr Genedlaethol yn Rhan 3 o'r Bil yn dangos gwaith parhaus cadarnhaol ac adeiladol gyda Llywodraeth newydd y DU.

Gallaf gadarnhau fy mod, wrth argymell bod y Senedd yn cydsynio i'r darpariaethau perthnasol, yn cydnabod effeithiau cadarnhaol y Bil hwn gan gynnwys y rheini a fydd yn cael eu cyflawni o ganlyniad i ddarpariaethau yn Rhan 1 a Rhan 2, yn ogystal â chydnabod y mesurau diogelu cyfansoddiadol a gyflwynwyd yn Rhan 3.

Rhwymedigaethau'r DU a'r UE

Comisiwn yr UE sy'n gyfrifol am y broses adnewyddu ar gyfer penderfyniadau digonolrwydd data'r DU, ac yn ddiweddar mae wedi cynnig estyniad o chwe mis i'w benderfyniadau digonolrwydd. Mae hyn er mwyn rhoi amser i'r Comisiwn gwblhau ei adolygiad o ddigonolrwydd data ar ôl i'r Bil gwblhau ei daith drwy Senedd y DU. Felly, ni fydd canlyniad yr adolygiad digonolrwydd data yn hysbys tan ar ôl i'r Bil gwblhau ei daith.

Mae fy swyddogion a minnau wedi pwysleisio pwysigrwydd cadw digonolrwydd data i Lywodraeth y DU cyn cyflwyno'r Bil a thrwy gydol ei daith drwy Senedd y DU. Gallaf gadarnhau y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i godi pryderon drwy'r sianeli rhynglywodraethol priodol.

Pryderon cyffredinol

Fel yr amlinellaf uchod, y dull deddfwriaethol a ddefnyddiwyd yn Rhan 3 o'r Bil fel y'i cyflwynwyd oedd wedi achosi'r pryder mwyaf i Lywodraeth Cymru o safbwynt cyfansoddiadol. Yn fy marn i, mae'r gwelliannau a gyflwynwyd i Ran 3 o'r Bil wedi mynd i'r afael â'r pryderon hyn. Felly, nid wyf yn cytuno â barn y Pwyllgor bod problemau sylweddol o hyd gyda darpariaethau'r Bil gan eu bod yn ymwneud â materion datganoledig.

Nodaf bryderon y Pwyllgor ynghylch darparu gwybodaeth gadarn ac amserol mewn memoranda cydsyniad deddfwriaethol ac rwyf wedi ymrwymo o hyd i alluogi cyflawni'r broses cydsyniad deddfwriaethol yn effeithlon. Drwy ymgysylltu'n gynnar â Llywodraeth y DU, roedd modd gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Rhif 3 a Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Rhif 4 cyn gynted â phosibl ac yn unol â'r Rheolau Sefydlog, er mwyn rhoi amser i Bwyllgor y Senedd graffu arnynt cyn y ddadl ar y cynnig.

Gobeithio bod hyn yn rhoi mwy o eglurder i'r Pwyllgor.

Yn gywir,

**Rebecca Evans AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio
Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning

**Julie James AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni**
**Counsel General and Minister for Delivery**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mike Hedges AS, Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Bae Caerdydd
Caerdydd, CF99 1SN

18 Mehefin 2025

Annwyl Mike,

**Bil Cynllunio (Cymru)**

Heddiw, rwyf wedi cyhoeddi copi o ddrafft gweithiol presennol y Bil Cynllunio (Cymru) ynghyd â'i Nodiadau Esboniadol a'i dabl tarddiadau: Bil Drafft Cynllunio (Cymru) | LLYW.CYMRU

Gobeithio y bydd eich Pwyllgor yn gweld y dogfennau hyn yn ddefnyddiol cyn cyflwyno'r Bil i'r Senedd ym mis Medi 2025. Bryd hynny bydd y Llywodraeth hefyd yn cyflwyno'r Bil Cynllunio (Darpariaethau Canlyniadol) (Cymru).

Mae fy swyddogion ar gael i drafod y drafftiau hyn gyda'r Pwyllgor neu ei staff cymorth os byddai hynny'n ddefnyddiol.

Yn gywir,

Julie James

**Julie James AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni
Counsel General and Minister for Delivery

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Cwnsler.Cyffredinol@llyw.cymru
correspondence.Counsel.General@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Drafft Bil Cynllunio (Cymru)** |
| **DYDDIAD** | **18 Mehefin 2025** |
| **GAN** | **Julie James AS, y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni** |

Ym mis Ebrill nodais fwriadau'r Llywodraeth i gyflwyno deddfwriaeth i gydgrynhoi'r gyfraith ar gynllunio. Bydd y Bil Cynllunio (Cymru) a'r Bil Cynllunio (Darpariaethau Canlyniadol) (Cymru) yn cael eu cyflwyno i'r Senedd ym mis Medi 2025.

Cyn hynny, rwyf heddiw wedi cyhoeddi'r drafft gweithiol presennol o'r Bil Cynllunio (Cymru) a'i Nodiadau Esboniadol. Gobeithio y bydd rhain yn ddefnyddiol i'r Aelodau a'r rhai sydd â diddordeb yn y system gynllunio yng Nghymru ddod yn gyfarwydd â'r ddeddfwriaeth, cyn i'r Senedd graffu yn ffurfiol ar y cynigion cydgrynhoi.

**Bil Drafft Cynllunio (Cymru):** https://www.llyw.cymru/bil-drafft-cynllunio-cymru

# Eitem 10

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Jayne Bryant AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai**
**Cabinet Secretary for Housing and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

Copïau at:
Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

30 Mai 2025

Annwyl Mike

Rwy'n ysgrifennu atoch i'ch hysbysu fy mod, yn unol â Rheol Sefydlog 30A, wedi gosod Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol yn Senedd Cymru mewn cysylltiad â'r Offeryn Statudol y DU a ganlyn, a osodwyd gerbron Senedd y DU ar 21 Mai 2025:

**Gorchymyn Diwygio Deddfwriaethol (Datgelu Data Gofal Cymdeithasol Oedolion) 2025**

Mae dolen i'r Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol yma:

Gorchymyn Diwygio Deddfwriaethol (Datgelu Data Gofal Cymdeithasol Oedolion) 2025

Rwyf o'r farn bod y Gorchymyn yn offeryn statudol perthnasol gan ei fod yn gwneud darpariaeth o ran Cymru sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol, sef Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd ac nad yw'n ddarpariaeth ddeilliadol, ganlyniadol, drosiannol, ddarfodol, atodol nac arbed sy'n ymwneud â materion nad ydynt o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

Rwyf wedi cyhoeddi datganiad ysgrifenedig y gallwch ei weld yma.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jayne.Bryant@llyw.cymru
Correspondence.Jayne.Bryant@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy'n bwriadu cyflwyno cynnig ar gyfer dadl ar y Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol hwn.

Yn gywir,

**Jayne Bryant AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai**
**Cabinet Secretary for Housing and Local Government**

# Eitem 11

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 12



Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Sarah Murphy AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant**
**Minister for Mental Health and Wellbeing**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/SM/1042/25

Mike Hedges AS,
Cadeirydd, y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

13 Mehefin 2025

Annwyl Mike,

Diolch am eich adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Iechyd Meddwl a ddaeth i law ym mis Ebrill, a diolch am gytuno i ni eich ateb ychydig yn hwyrach na'r disgwyl.

Rwy'n amgáu ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion hyn.

Yn gywir,

**Sarah Murphy AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant
Minister for Mental Health and Wellbeing

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Sarah.Murphy@llyw.cymru
Correspondence.Sarah.Murphy@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb i ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn yr un iaith ac ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Iechyd Meddwl**

**Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

**Mehefin 2025**

Ym mis Ebrill 2025, cyflwynodd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ei adroddiad ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Bil Iechyd Meddwl. Mae'r adroddiad yn cynnwys tri chasgliad ac wyth argymhelliad. Dyma ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion hynny.

## Cyflwyniad

Cyflwynwyd y Bil Iechyd Meddwl ("y Bil") yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 6 Tachwedd 2024.

Amcanion polisi datganedig Llywodraeth y DU yw moderneiddio'r ddeddfwriaeth iechyd meddwl i roi mwy o ddewis, ymreolaeth, hawliau a chymorth i gleifion; a sicrhau bod pawb yn cael eu trin ag urddas a pharch drwy gydol cyfnod eu triniaeth. Mae'r Bil hefyd yn cynnwys mesurau i wella gofal a chymorth ar gyfer pobl sydd ag anabledd dysgu a phobl awtistig, gan leihau'r ddibyniaeth ar ofal mewn ysbytai.

Mae'n cynnwys nifer o ddiwygiadau i Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 ("y Ddeddf"). Bwriad cyffredinol y mesurau yn y Bil hwn yw cryfhau llais cleifion sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf. Maent yn rhoi grym statudol ychwanegol i hawliau cleifion i fod yn rhan o'r broses o gynllunio ar gyfer eu gofal, ac i lywio dewisiadau ynghylch y driniaeth y maent yn ei chael. Bydd y diwygiadau yn cynyddu'r craffu ar gadwad er mwyn sicrhau mai dim ond pan fo ei angen, a chyhyd ag y bo ei angen, y caiff ei ddefnyddio. Mae'r Bil hefyd yn ceisio cyfyngu ar y defnydd o Ddeddf 1983 i gadw pobl sydd ag anabledd dysgu a phobl awtistig.

Mae'r Ddeddf yn darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer cadwad a thriniaeth orfodol unigolion ag anhwylderau meddwl a allai beri risg iddynt hwy eu hunain neu i eraill. Prif ganolbwynt diwygiadau diweddar i'r Ddeddf oedd Rhannau 2 a 3, sy'n ymdrin â chleifion sifil (cleifion sy'n agored i gael eu cadw yn yr ysbyty ac nad ydynt yn ddarostyngedig i'r Ddeddf o ganlyniad i unrhyw gysylltiad â'r system

cyfiawnder troseddol) a throseddwyr ag anhwylderau meddwl, yn y drefn honno. Mae dros ddwy ran o dair o'r rhai sy'n cael eu cadw o dan y Ddeddf yn gleifion sifil (o dan Ran 2).

Digwyddodd y diwygiad mawr diwethaf i'r Ddeddf yn 2007, gan gyflwyno Gorchmynion Triniaeth Gymunedol, Eiriolwyr Iechyd Meddwl Annibynnol, a meini prawf cadw wedi'u haddasu. Mae Rhan 3 yn llywodraethu triniaeth troseddwyr ag anhwylderau meddwl perthnasol, wedi'u rhannu'n gleifion dan gyfyngiadau a chleifion nad ydynt dan gyfyngiadau. Mae cleifion dan gyfyngiadau, sy'n peri risg i ddiogelwch y cyhoedd, o dan reolaethau llymach gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder, tra bo cleifion nad ydynt dan gyfyngiadau yn cael eu trin yn debyg i gleifion sifil, gyda llai o gyfyngiadau.

Mae'r diwygiadau diweddaraf, sy'n cael eu cyflwyno yn y Bil Iechyd Meddwl a gyflwynwyd gerbron Senedd y DU yn 2024, yn seiliedig ar ganfyddiadau Adolygiad Annibynnol 2018 o'r Ddeddf, o dan arweiniad yr Athro Syr Simon Wessely. Tynnodd yr adolygiad sylw at broblemau sylweddol o ran cymhwysiad a diwylliant y Ddeddf, ac fe wnaeth 154 o argymhellion. Derbyniodd llywodraeth San Steffan y mwyafrif o'r argymhellion hyn ac, yn dilyn ymgyngoriadau a chraffu cyn y broses ddeddfu, cyflwynwyd Bil drafft yn 2022 a'i ddiwygio a'i gyflwyno yn 2024 i ymgorffori newidiadau ar sail yr adborth a ddaeth i law.

O gofio bod y Ddeddf yn cwmpasu meysydd a gedwir yn ôl a meysydd datganoledig, mae trefniadau partneriaeth sefydledig yng Nghymru sy'n cynorthwyo’r gwaith o weithredu’r Ddeddf yn ddiogel, yn enwedig pan fo rhyngwyneb rhwng y system gyfiawnder a'r system iechyd yng Nghymru. Pan ddaw'r Ddeddf newydd i rym, bydd yn adeiladu ar y trefniadau sefydledig hynny i sicrhau ei bod yn cael ei rhoi ar waith yn llyfn ac yn effeithiol.

Yng Nghymru, mae Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 (“y Mesur”) yn ddarn unigryw o ddeddfwriaeth sydd wedi'i gynllunio i ddarparu fframwaith cyfreithiol i wella gwasanaethau iechyd meddwl. Dechreuodd y gwaith o roi'r gwasanaethau sy'n ofynnol gan y Mesur ar waith, fesul cam, ym mis Ionawr 2012 ac mae'n cynnwys gwell mynediad at wasanaethau iechyd meddwl o fewn gofal sylfaenol; cynlluniau gofal a thriniaeth a chydgysylltwyr gofal ar gyfer pawb sy'n derbyn gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd; hunanatgyfeirio yn ôl i wasanaethau iechyd meddwl i oedolion sy'n cael eu rhyddhau o wasanaethau iechyd meddwl eilaidd; a sicrhau bod eiriolaeth iechyd meddwl annibynnol ar gael yn ehangach. Nod y Mesur oedd gwella mynediad at gymorth mewn gofal sylfaenol ond hefyd gryfhau hawliau pobl sy'n cael mynediad at wasanaethau iechyd meddwl, ond nad ydynt yn ddarostyngedig i'r Ddeddf.

Prif nod y Mesur yw helpu i ymyrryd yn gynharach ac osgoi gorfod defnyddio gwasanaethau mwy arbenigol neu gadw cleifion o dan y Ddeddf.

Mae'r Ddeddf yn ddeddfwriaeth sylfaenol yng Nghymru a Lloegr sy'n llywodraethu asesu, triniaeth a hawliau unigolion ar gyfer pobl ag anhwylder iechyd meddwl. Mae'r Ddeddf yn cynnwys meysydd a gedwir yn ôl a meysydd datganoledig, ac mae'r rhyngwyneb rhwng y ddau – er enghraifft rhwng y system cyfiawnder troseddol a gwasanaethau iechyd – yn golygu mai Bil i'r DU gyfan yw'r mecanwaith priodol i gyflawni'r newidiadau polisi hyn.

O gofio'r cymysgedd o feysydd a gedwir yn ôl a meysydd datganoledig yn y Ddeddf ac yn y Bil hwn, ni fyddai deddfu ar sail Cymru yn unig yn cyflawni'r un bwriad polisi ar draws y systemau cyfiawnder ac iechyd ag y mae'r Bil hwn i'r DU gyfan yn ei wneud. Pan fo'r Bil yn gwneud darpariaeth sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig, ceisiwyd cydsyniad y Senedd.

Deddfwriaeth i Gymru yn unig yw Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) a'i nod yw nodi sut y mae angen i wasanaethau weithio gyda'i gilydd i ddarparu cymorth iechyd meddwl yn y gymuned. Mae'r Ddeddf yn ymwneud i raddau helaeth â phwerau gorfodol a derbyn cleifion i'r ysbyty neu eu rhyddhau o'r ysbyty.

## Ymateb i'r wyth argymhelliad

### Argymhelliad 1

Argymhelliad y Pwyllgor:

Dylai Llywodraeth Cymru roi gwybodaeth fanylach yn amlinellu pam y mae o'r farn nad oes angen cydsyniad y Senedd ar gyfer cymalau 9, 33, 47 a 48 o'r Bil fel y'i cyflwynwyd.

Ymateb: Gwrthod

Rwyf o'r farn nad yw'r cymalau uchod yn rhoi sylw i faterion datganoledig ac felly ni cheisir cydsyniad y Senedd mewn perthynas â'r cymalau hyn.

Er enghraifft, diben cymal 9 yw ymdrin â dychwelyd – neu, pan fo'n berthnasol, ryddhau – carcharorion ac unigolion a gedwir sydd ag anghenion iechyd meddwl difrifol i'w man cadw pan nad oes angen triniaeth arnynt mwyach. Mae hyn yn dangos y rhyngweithio agos sydd yn y Bil hwn rhwng materion datganoledig a materion a gedwir yn ôl. Yn yr achos hwn, fy marn i yw nad yw hyn yn rhoi digon o sylw i faterion datganoledig i olygu bod gofyn cael cydsyniad y Senedd.

Y dull hwn sydd wedi arwain yn y pen draw at y casgliadau nad oes angen ceisio cydsyniad y Senedd mewn perthynas â'r cymalau hyn.

Goblygiadau Ariannol – Dim

**Argymhelliad 2**

Argymhelliad y Pwyllgor:

Dylai Llywodraeth Cymru ofyn am gydsyniad y Senedd ar gyfer cymalau 9, 33, 47 a 48 o'r Bil fel y'i cyflwynwyd.

Ymateb: Gwrthod

Fel yr eglurwyd yn fy ymateb i argymhelliad 1,, nid wyf o'r farn bod angen cydsyniad y Senedd mewn perthynas â'r cymalau uchod gan nad ydynt yn rhoi sylw i faterion datganoledig.

Goblygiadau Ariannol – Dim

**Argymhelliad 3**

Argymhelliad y Pwyllgor:

Dylai'r Gweinidog esbonio pa ystyriaeth a roddwyd gan Lywodraeth Cymru i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd am y gwaith yr oedd yn ei wneud mewn perthynas â'r Bil, rhwng cyhoeddi Papur Gwyn Llywodraeth y DU a chyflwyno Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru.

Ymateb: Derbyn

Yn ystod y broses ymgynghori ar y Papur Gwyn, cafodd swyddogion Llywodraeth Cymru ymatebion o Gymru a chafodd y rhain eu hadolygu. Fodd bynnag, ni chafodd y Bil ei gynnwys yn Araith y Brenin ym mis Tachwedd 2023 ac nid oedd yn rhan o'r rhaglen ddeddfwriaethol ar gyfer y flwyddyn honno. Ni wnaeth swyddogion ragor o waith ar Fil y DU ar y cam hwnnw.

Goblygiadau Ariannol – Dim

**Argymhelliad 4**

Argymhelliad y Pwyllgor:

Gan ei bod yn ymddangos bod Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda Llywodraeth y DU ar y Bil am o leiaf bedair blynedd, dylai'r Gweinidog esbonio pam nad yw wedi bod yn bosibl cyflwyno Bil i'r Senedd er mwyn craffu arno.

Ymateb: Derbyn

Fel y dywedir yn yr ymateb i argymhelliad 3, daeth y gwaith ar Fil y DU i ben ym mis Tachwedd 2023.

Yn fy ymatebion i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, nodais yn glir pam y dylem fod yn cydweithio â Llywodraeth y DU ar y Bil hwn ar gyfer y DU. Mae'r Ddeddf yn ddeddfwriaeth sylfaenol yng Nghymru a Lloegr sy'n llywodraethu asesu, triniaeth a hawliau unigolion ar gyfer pobl ag anhwylder iechyd meddwl. Mae'r Ddeddf yn cynnwys meysydd a gedwir yn ôl a meysydd datganoledig, ac mae'r rhyngwyneb rhwng y ddau – er enghraifft rhwng y system cyfiawnder troseddol a gwasanaethau iechyd – yn golygu mai Bil i'r DU gyfan yw'r mecanwaith priodol i gyflawni'r newidiadau polisi hyn.

O gofio'r cymysgedd o feysydd a gedwir yn ôl a meysydd datganoledig yn y Ddeddf ac yn y Bil hwn, ni fyddai deddfu ar sail Cymru yn unig yn cyflawni'r un bwriad polisi ar draws y systemau cyfiawnder ac iechyd ag y mae'r Bil hwn i'r DU gyfan yn ei wneud. Pan fo'r Bil yn gwneud darpariaeth sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig, ceisiwyd cydsyniad y Senedd.

Goblygiadau Ariannol – Dim

**Argymhelliad 5**

Argymhelliad y Pwyllgor:

Dylai'r Gweinidog esbonio sut y mae ei dull gweithredu o ddefnyddio Bil gan Lywodraeth y DU i ddeddfu mewn perthynas ag iechyd meddwl yn parchu datganoli.

Ymateb: Derbyn

Mae fy null o ddefnyddio'r Bil hwn gan Lywodraeth y DU ac argymell cydsyniad yn unol â'n hegwyddorion ar ddeddfwriaeth y DU ac yn ein galluogi i sicrhau darpariaeth gadarnhaol er budd gorau Cymru.

Rwyf wedi ymdrin â rhai agweddau ar hyn yn fy ymateb i argymhelliad 4. Mae’r Ddeddf yn gymwys pan fo angen i unigolion gael eu cadw ar gyfer asesiad a/neu driniaeth frys neu argyfwng, ac na fydd yr unigolyn o bosibl yn cydsynio i'r driniaeth honno. Mae'r data diweddaraf a gyhoeddwyd yn dangos bod 2,231 o dderbyniadau ffurfiol i welyau mewn ysbytai iechyd meddwl yn 2021-22, a bod derbyniadau'n parhau i ostwng yn gyffredinol.

Mae'r Ddeddf yn cynnwys pwerau i'r heddlu gadw unigolion ac mae rhyngwyneb hefyd â charchardai a'r system cyfiawnder troseddol ehangach – felly mae'n glir pam y mae angen deddfu ar hyn ar lefel y DU.

Mae Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 yn gymwys i garfan lawer ehangach sy'n ymwneud â gwasanaethau iechyd meddwl sylfaenol ac eilaidd – cafodd Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl Sylfaenol Lleol yn unig fwy na 6,200 o atgyfeiriadau bob mis ers dechrau mis Ionawr 2023. Rydym wedi cyflwyno deddfwriaeth unigryw yng Nghymru sydd wedi gwella cymorth a diogeliadau i'r rhan fwyaf o bobl sy'n dod i gysylltiad â'n gwasanaethau iechyd meddwl. Mae'r Ddeddf yn ymwneud â phwerau gorfodol ar gyfer asesu a thrin ar draws gwasanaethau iechyd a'r system cyfiawnder troseddol.

Rwy'n cydnabod bod y Senedd yn cael llai o gyfle i graffu drwy'r dull hwn, ond mae angen imi gydbwyso'r ystyriaeth hon â'r angen i gyflawni newid cadarnhaol i Gymru. Mae bod yn rhan o'r Bil hwn yn sicrhau bod pobl Cymru yn cael eu hamddiffyn yn yr un modd â phobl yn Lloegr, a thrwy hynny cyflawnir amcanion polisi allweddol ym maes iechyd meddwl.

Goblygiadau Ariannol – Dim

**Argymhelliad 6**

Argymhelliad y Pwyllgor:

Dylai’r Gweinidog restru’r holl gymalau yn y Bil lle y mae’r gydberthynas rhwng materion a gedwir yn ôl a materion datganoledig wedi’i chydblethu’n agos ac esbonio’r berthynas honno ym mhob achos.

Ymateb: Gwrthod

Mae'r gydberthynas rhwng materion a gedwir yn ôl a materion datganoledig wedi'u cydblethu'n agos mewn llawer o gymalau'r Bil.

Cyfeiriais at gymal 9 o'r Bil fel un cymal o'r fath lle y mae'r rhyngweithio rhwng materion datganoledig a materion a gedwir yn ôl wedi'i gydblethu'n agos yn y fath fodd, ond nad wyf o'r farn fod y ddarpariaeth yn rhoi sylw i faterion datganoledig sy'n gofyn am gydsyniad y Senedd.

Mae llawer o enghreifftiau eraill o gymal o'r fath lle y mae'r berthynas wedi'i chydblethu'n agos. Er enghraifft (heb fod yn hollgynhwysfawr) mae cymal 34 (trosglwyddo o'r carchar i'r ysbyty: amodau); cymal 35 (trosglwyddo o'r carchar i'r ysbyty: terfynau amser); cymal 47 (remánd er mwyn diogelu'r person ei hun etc); a chymal 48 (symud cleifion remánd dros dro i Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw neu oddi yno) (fel yr oeddent pan gyflwynwyd y Bil).

Rwyf wedi ystyried ym mhob un o'r achosion hyn a yw'r cymal yn rhoi sylw i faterion datganoledig, a phan oeddwn o'r farn eu bod yn gwneud hynny, ceisiwyd cydsyniad y Senedd.

Goblygiadau Ariannol – dim

**Argymhelliad 7**

Argymhelliad y Pwyllgor:

Dylai Llywodraeth Cymru ofyn am gydsyniad y Senedd ar gyfer cymal 53 o'r Bil fel y'i cyflwynwyd.

Ymateb: Gwrthod

Ni cheisiwyd cydsyniad mewn perthynas â chymal 53 fel y'i cyflwynwyd gan mai darpariaeth dechnegol sy'n egluro cychwyn y Bil yw hon, yn hytrach na darpariaeth o sylwedd. Ceisiwyd cydsyniad y Senedd mewn perthynas â'r darpariaethau o sylwedd yn y Bil yr wyf wedi dod i'r casgliad eu bod yn rhoi sylw i faterion datganoledig.

Goblygiadau Ariannol – dim.

**Argymhelliad 8**

Argymhelliad y Pwyllgor:

Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU i geisio diwygio'r Bil er mwyn cynnwys pwerau cychwyn i Weinidogion Cymru.

Ymateb: Gwrthod

Mae'r ddarpariaeth cychwyn yn sicrhau y gall amcanion polisi o dan y Bil gael eu rhoi ar waith gan Lywodraeth y DU. Mae hyn yn osgoi cymhlethdodau ac anymarferoldeb posibl a allai godi pe bai darpariaethau cychwyn ar wahân yn cael eu cynnwys yn y Bil mewn perthynas â Chymru, nad yw'n ymddangos yn angenrheidiol yng nghyd-destun y Bil hwn.

Mae fy swyddogion yn parhau i gwrdd yn wythnosol gyda swyddogion Llywodraeth y DU ac wedi datblygu perthynas waith effeithiol a chydweithredol. Bydd hyn yn sicrhau bod darpariaethau'n cael eu cychwyn ar adeg briodol yng Nghymru.

Goblygiadau Ariannol – Dim

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon